

Gweinyddu etholiadol cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017

Adroddiad ar etholiad cyffredinol Senedd y DU ar 8
Mehefin 2017

Rhagfyr 2017

Fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn print bras neu fersiwn Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol yw'r corff annibynnol sy'n goruchwyllo etholiadau ac yn rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn y DU. Rydym yn gweithio i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd a sicrhau ei huniondeb.

Cynnwys

Crynodeb: gweinyddu etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017 ...1

1	Gweinyddu etholiadol cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017	3
	Y nifer a bleidleisiodd a chyfranogiad	4
	Safbwyntiau pleidleiswyr ac ymgeiswyr	5
	Ein hadroddiadau ar etholiad cyffredinol y DU 2017	6
2	Materion gweinyddu a rheoli etholiadol	8
	Cyn y diwrnod pleidleisio	11
	Pleidleisio absennol	13
	Y diwrnod pleidleisio a'r broses gyfrif	18

Crynodeb: gweinyddu etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017

Cofrestrodd cyfanswm o 46,835,433 o bobl i bleidleisio yn etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Mehefin 2017, yr etholaeth fwyaf erioed ar gyfer digwyddiad pleidleisio ledled y DU. Roedd y nifer a bleidleisiodd yn 69% – y nifer fwyaf ar gyfer etholiad cyffredinol y DU ers mis Mai 1997.

Nododd bron i bedwar o bob pump (79%) person a arolygwyd ar ôl yr etholiad eu bod naill ai'n hyderus iawn neu'n gymharol hyderus bod yr etholiadau'n cael eu cynnal yn effeithiol, ac roedd 89% o'r ymgeiswyr yn fodlon iawn neu'n gymharol fodlon â'r broses o weinyddu'r etholiad.

Cyhoeddwyd etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Mehefin yn annisgwyl lai na thair wythnos cyn y diwrnod pleidleisio ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol a drefnwyd ar gyfer mis Mai 2017. Cyflwynodd hyn heriau sylweddol i Swyddogion Canlyniadau a'u staff a oedd yn gyfrifol am gynnal y digwyddiad pleidleisio. Maent yn haeddu clod mawr a diolch am sicrhau bod etholiadau mis Mai a mis Mehefin wedi'u cynnal yn effeithiol.

Ond ni ddylai'r darlun cyffredinol cadarnhaol hwn gelu risgiau ehangach i'r broses o weinyddu etholiadau a gaiff eu cynnal yn effeithiol, sy'n dod yn fwyfwy amlwg. Mae Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol yn gorfod ymdopi â llai o adnoddau ac mae nifer gynyddol o weithwyr proffesiynol medrus yn gadael timau etholiadau awdurdodau lleol. Maent hefyd yn dibynnu fwyfwy ar gronfa fach o gyflenwyr meddalwedd arbenigol a rheoli prosesau argraffu.

Mae problemau mewn rhai ardaloedd sy'n golygu bod rhai pleidleiswyr wedi cael gwasanaeth annigonol, a phroblemau sylweddol yn Plymouth a Newcsatle-under-Lyme yn dangos y dylid cymryd mwy o gamau gweithredu nawr i fynd i'r afael â'r heriau cynyddol y mae Swyddogion Canlyniadau yn eu hwyneb wrth gynnal etholiadau yn effeithiol.

Byddwn yn dal i weithio gyda llywodraethau'r DU, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau i gasglu ac adolygu tystiolaeth am yr heriau i etholiadau a gaiff eu cynnal yn effeithiol ac i nodi newidiadau a allai helpu i leihau'r risgiau hynny.

Rydym hefyd am weld cynnydd gan lywodraethau'r DU tuag at weithredu argymhellion a wnaed gennym ni ac eraill, yn cynnwys:

- Gweithredu cynigion Comisiynau'r Gyfraith yn y DU i symleiddio cyfraith etholiadol ac argymhellion Syr Eric Pickles ar dwyll etholiadol.

- Gwella'r rheolau ar gyfer enwebu ymgeiswyr, penodi dirprwyon brys a'i gwneud yn haws i bleidleiswyr tramor fwrw pleidlais.
Gwneud y broses gofrestru etholiadol yn fwy unedig â gwasanaethau cyhoeddus eraill er mwyn sicrhau ei bod yn symlach i'r cyhoedd ac yn fwy effeithlon i Swyddogion Cofrestru Etholiad, a lleihau'r risg y bydd pobl yn pleidleisio mewn mwy nag un etholaeth.

1 Gweinyddu etholiadol cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017

1.1 Cyflwynodd etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Mehefin 2017 heriau sylweddol i Swyddogion Canlyniadau¹ a'u staff a oedd yn gyfrifol am gynnal y digwyddiad pleidleisio.

1.2 Cyhoeddwyd yr etholiad yn annisgwyl lai na thair wythnos cyn y diwrnod pleidleisio ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol a drefnwyd ar gyfer mis Mai 2017 a gynhaliwyd ledled Cymru a'r Alban ac mewn rhannau o Loegr.² Roedd etholiad Cynulliad Gogledd Iwerddon nas trefnwyd ymlaen llaw eisoes wedi'i gynnal ym mis Mawrth 2017. Yn ystod y tair wythnos cyn y diwrnod pleidleisio ar 8 Mehefin, roedd ymosodiadau terfysgol ym Manceinion a Llundain hefyd wedi arwain at gynyddu mesurau diogelwch ledled y DU, yn enwedig mewn mannau cyhoeddus proffil uchel.

1.3 Mae tystiolaeth a gaiff ei chrynhai yn y bennod hon, ac a nodir yn fanylach yn ein gwaith ymchwil ar safbwyntiau pleidleiswyr ac ymgeiswyr, yn dangos bod etholiadau mis Mai a mis Mehefin 2017 wedi cael eu cynnal yn effeithiol. Mae Swyddogion Canlyniadau a'u staff yn haeddu clod mawr a diolch am eu gwaith caled yn cynnal yr etholiadau hyn. Ond ni ddylai'r darlun cyffredinol cadarnhaol hwn gelu risgiau ehangach i'r broses o weinyddu etholiadau a gaiff eu cynnal yn effeithiol, sy'n dod yn fwyfwy amlwg.

1.4 Yn etholiadau mis Mai a mis Mehefin 2017, cafwyd problemau mewn nifer fach o ardaloedd lle na chafodd rhai pleidleiswyr y gwasanaeth y dylent allu ei ddisgwyl. Hefyd, cafwyd problemau mwy sylweddol gyda'r broses o weinyddu etholiad cyffredinol y DU yn Plymouth a Newcastle-under-Lyme. Mae hyn yn awgrymu y dylid cymryd mwy o gamau gweithredu nawr er mwyn deall yr heriau cynyddol y mae Swyddogion Canlyniadau yn eu hwynebu wrth gynnal etholiadau yn effeithiol a mynd i'r afael â'r heriau hynny.

Cynnal etholiadau yn effeithiol: her gynyddol

Yn ein hadroddiad ym mis Gorffennaf ar gofrestru etholiadol yn etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017, gwnaethom dynnu sylw at y ffaith y bu'n rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol brosesu nifer fawr o geisiadau cofrestru etholiadol yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2017. Roedd y rhain yn

¹ Yn hytrach na lle rydym yn cyfeirio'n benodol at Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), rydym yn defnyddio Swyddog Canlyniadau yn yr adroddiad hwn i gyfeirio at y Swyddogion Canlyniadau Gweithredol a oedd yn gyfrifol yn gyfreithiol am gynnal yr etholiadau.

² Bwriadwyd cynnal yr etholiad cyffredinol nesaf yn y DU ym mis Mai 2020, ond pleidleisiodd y Senedd i gynnal etholiad ddydd Iau 8 Mehefin 2017 yn lle hynny.

annisgwyl a heb eu cynllunio o ran eu nifer a'u hamseru, ac roedd llawer ohonynt yn geisiadau dyblyg gan bobl a oedd eisoes wedi cofrestru'n gywir. Bu'n rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ledled y DU ddefnyddio eu cyllidebau awdurdod lleol i ddelio ag effaith digwyddiad etholiadol cenedlaethol nas cynlluniwyd.

Mae Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol hefyd yn gorfod ymdopi â llai o adnoddau ac mae nifer gynyddol o weithwyr proffesiynol medrus yn gadael timau etholiadau awdurdodau lleol. Yn ddiweddar, mae'r AEA wedi tynnu sylw at y nifer helaeth o bobl sy'n gadael y proffesiwn gweinyddu etholiadau, gyda 12% o'i aelodau wedi gadael dros y tair blynedd diwethaf. Maent hefyd yn dibynnu fwyfwy ar gronfa fach o gyflenwyr meddalwedd arbenigol a rheoli prosesau argraffu.

Byddwn yn dal i weithio gyda llywodraethau'r DU a'r Bwrdd Cydlynu a Chynghori Etholiadol (sy'n cynnwys uwch Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau ynghyd â chynrychiolwyr o Gymdeithas Prif Swyddogion Gweithredol Awdurdodau Lleol a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol) i gasglu ac adolygu tystiolaeth am yr heriau i etholiadau a gaiff eu cynnal yn effeithiol ac i nodi newidiadau a allai helpu i leihau'r risgiau hynny.

Rydym hefyd am weld cynnydd gan lywodraethau'r DU mewn perthynas â gweithredu'r argymhellion pwysig a wnaed gan Gomisiynau'r Gyfraith yn y DU yn 2016 er mwyn diwygio a symleiddio ein fframwaith cymhleth a thameidiog o gyfraith etholiadol. Byddai cynigion Comisiynau'r Gyfraith yn cyflwyno buddiannau sylweddol i'r sawl sy'n gweinyddu etholiadau, yn ogystal â'r sawl sy'n ymgyrchu neu'n sefyll fel ymgeiswyr, a byddent yn cefnogi prosesau mwy effeithlon o weinyddu etholiadau yn y dyfodol.

Y nifer a bleidleisiodd a chyfranogiad

1.5 Cofrestrodd cyfanswm o 46,835,433 o bobl i bleidleisio yn etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Mehefin 2017, yr etholaeth fwyaf erioed ar gyfer digwyddiad pleidleisio ledled y DU. Roedd yn cynnwys:

- 285,000 o ddinasyddion Prydeinig a gofrestrwyd fel etholwyr tramor; a
- 284,000 o etholwyr a benododd ddirprwyon i fwrw pleidlais ar eu rhan.

1.6 Enwebwyd cyfanswm o 3,308 o ymgeiswyr i sefyll etholiad yn etholiad cyffredinol mis Mehefin 2017, sy'n golygu rhwng pump a chwe ymgeisydd fesul etholaeth ar gyfartaledd.

1.7 Cafodd cyfanswm o 32,294,928 o bapurau pleidleisio eu cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer etholiad cyffredinol mis Mehefin 2017, sy'n golygu bod 69% wedi pleidleisio. Dyma'r ganran uchaf ar gyfer etholiad cyffredinol y DU ers mis Mai 1997.

1.8 Cafodd tua 8,412,060 o etholwyr (ychydig o dan 18% o gyfanswm yr etholaeth) bleidlais bost, a chafodd 7,155,315 eu dychwelyd gan bleidleiswyr i Swyddogion Canlyniadau cyn diwedd y cyfnod pleidleisio. Ni chafodd tua


2.4% o'r holl bleidleisiau post a ddychwelwyd eu cynnwys yn y cyfrif am nad oedd manylion adnabod (llofnod a dyddiad geni) y pleidleiswyr yn cyfateb i'r rhai a ddarparwyd yn flaenorol ac a ddaliwyd ar gofnod gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol, neu am fod y pleidleisiwr wedi methu â chynnwys naill ai'r papur pleidleisio neu'r datganiad pleidleisio drwy'r post wedi'i lofnodi (neu'r ddau) yn eu hamlenni pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd. Rhaid i Swyddogion Canlyniadau nodi'r manylion adnabod ar bob pecyn pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd cyn y gellir cynnwys y papur pleidleisio yn y cyfrif.

1.9 Cafodd cyfanswm o 74,289 o bapurau pleidleisio (llai na chwarter 1 y cant o gyfanswm y pleidleisiau a fwriwyd gan bleidleiswyr) eu gwrthod ac ni chawsant eu cyfrif naill ai am eu bod yn wag, am nad oedd yn glir pa ymgeisydd yr oedd y bleidlais ar ei gyfer, neu am fod marc swyddogol y Swyddog Canlyniadau ar goll.

Safbwyntiau pleidleiswyr ac ymgeiswyr

1.10 Canfu ein hymchwil gyda'r cyhoedd ar ôl etholiad cyffredinol mis Mehefin 2017 fod bron i bedwar o bob pum person (79%) wedi nodi eu bod naill ai'n hyderus iawn neu'n gymharol hyderus bod yr etholiadau wedi'u cynnal yn effeithiol. Roedd hyn yn is na chyfran y bobl a nododd eu bod yn hyderus bod yr etholiad cyffredinol ym mis Mai 2015 wedi'i gynnal yn effeithiol (91%) ond yn unol â digwyddiadau etholiadol mwy diweddar. Yn 2017, roedd pleidleiswyr yn llawer mwy tebygol o nodi eu bod yn hyderus bod yr etholiadau wedi'u cynnal yn effeithiol o gymharu â phobl na wnaethant bleidleisio (81% o gymharu â 64%).

Siart 1.1: Pa mor hyderus ydych chi bod yr etholiad wedi'i gynnal yn effeithiol?



Ffynhonnell: Arolygon ar ôl Etholiadau'r Comisiwn Etholiadol (Ipsos Mori / ICM)
C: Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi bod yr etholiad wedi'i gynnal yn effeithiol?
Sylfaen (heb ei phwysoli): 2010 – 3,586, 2015 – 3,564, 2017 – 3,519.

1.11 Diffyg gwybodaeth (24%) a diffyg ffydd mewn gwleidyddion/yn y system wleidyddol (19%) oedd y categorïau o'r rhesymau a nodwyd amlaf pam nad oedd pobl yn hyderus bod etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017 wedi'i gynnal yn effeithiol.

1.12 Canfu ein hymchwil y canlynol hefyd:

- roedd 98% o bleidleiswyr o'r farn ei bod yn hawdd cwblhau'r papur pleidleisio
- roedd 84% o bleidleiswyr gorsaf bleidleisio yn fodlon ar y broses o bleidleisio
- roedd 80% o bleidleiswyr post yn fodlon ar y broses o bleidleisio

1.13 Canfu ein hymchwil ag ymgeiswyr ar ôl etholiad cyffredinol mis Mehefin 2017 hefyd fod bron i naw allan o ddeg (89%) wedi nodi eu bod yn fodlon ar y broses o weinyddu'r etholiad yn eu hetholaeth.

Ein hadroddiadau ar etholiad cyffredinol y DU 2017

1.14 Mae'r adroddiad hwn yn dod â'n rhaglen benodol o adroddiadau ar etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Mehefin 2017 i ben. Rydym hefyd

wedi cyhoeddi adroddiadau penodol ar gofrestru pleidleiswyr, hygyrchedd a rheoleiddio cyllid gwleidyddol yn yr etholiad cyffredinol.³

1.15 Hefyd, rydym wedi cyhoeddi canfyddiadau o'n hymchwil ag etholwyr ag ymgeiswyr ar eu sylwadau am etholiad cyffredinol 2017.⁴

1.16 Erbyn mis Mawrth 2018, byddwn hefyd yn cyhoeddi dadansoddiad o ddata a gofnodwyd gan heddluoedd am achosion o dwyll etholiadol honedig y rhoddwyd gwybod amdanynt yn ystod 2017.

³ Electoral Commission: [*Electoral registration at the June 2017 UK general election*](#) (July 2017); [*Elections for everyone – Experiences of people with disabilities at the 8 June 2017 UK Parliamentary general election*](#) (November 2017); [*Political finance regulation at the June 2017 UK general election*](#) (November 2017)

⁴ Y Comisiwn Etholiadol: [*Pleidleisio yn 2017 – Deall agweddau'r cyhoedd tuag at etholiadau a phleidleisio*](#) (Hydref 2017); [*Sefyll etholiad yn 2017 – Dadansoddiad o'r adborth gan ymgeiswyr a oedd yn sefyll etholiad ar gyfer Cynulliad Gogledd Iwerddon, cynghorau'r Alban a Senedd y DU*](#) (Tachwedd 2017)

2 Materion gweinyddu a rheoli etholiadol

2.1 Ar ôl cyhoeddi ym mis Ebrill 2017 y byddai etholiad cyffredinol Senedd y DU yn cael ei gynnal ar 8 Mehefin, bu'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol adolygu a diweddarau eu cynlluniau er mwyn gallu cynnal y ddwy set o ddigwyddiadau pleidleisio. Gwnaethom gyhoeddi ein canllawiau craidd i gefnogi Swyddogion Canlyniadau, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr o fewn tri diwrnod i gyhoeddiad y Prif Weinidog, ac roedd ein set lawn o ganllawiau ac adnoddau ar gael o fewn pythefnos.

2.2 Yn ei hadroddiad ei hun ar etholiadau 2017, cydnabu Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA) – y corff proffesiynol sy'n cynrychioli swyddogion lleol sy'n cynnal etholiadau – bwysigrwydd canllawiau amserol, cynhwysfawr, a nodwyd bod gweinyddwyr etholiadol yn croesawu'r ffaith bod canllawiau ac adnoddau ar gael ar fyr rybudd.⁵

2.3 Mae tystiolaeth o'n hasesiad o berfformiad yn erbyn ein safonau perfformiad ac o faterion a godwyd yn ystod etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017 yn dangos bod yr etholiadau wedi'u cynnal yn effeithiol ar y cyfan.⁶ Ni chafwyd unrhyw heriau cyfreithiol i ganlyniadau'r etholiadau yn 2017, a mynegodd etholwyr ac ymgeiswyr lefelau uchel o hyder yn y broses o weinyddu'r etholiadau.

2.4 Fodd bynnag, roedd nifer fath o feysydd lle roedd materion lleol a gwallau mewn prosesau gweinyddu a rheoli etholiadol yn golygu na chafodd rhai etholwyr y gwasanaeth y dylent allu ei ddisgwyl. Nodir y rhain yn ddiweddarach yn y bennod hon ac maent yn cynnwys:

- gwallau wrth lunio a dosbarthu cardiau pleidleisio;
- gwallau wrth lunio a dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post;
- gwallau wrth weinyddu gweithdrefnau gorsafoedd pleidleisio.

2.5 Hefyd, cafwyd problemau mwy sylweddol gyda'r broses o weinyddu etholiadau seneddol mis Mehefin 2017 yn Plymouth a Newcastle-under-Lyme. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r rhain ac yn ystyried y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r adolygiadau annibynnol a gomisiynwyd gan yr awdurdodau lleol yn yr ardaloedd hyn er mwyn nodi natur ac achosion y problemau hynny.

⁵ Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol *It's time for urgent and positive Government action* *The AEA's review of the 2017 local government elections and the UK Parliamentary general election* (Medi 2017)

⁶ Ceir rhagor o wybodaeth am safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ar ein gwefan yn <https://www.electoralcommission.org.uk/find-information-by-subject/performance-standards-data/performance-in-running-elections-and-referendums>

2.6 Mae'n bwysig bod yn agored am broblemau a gwallau fel y gall Swyddogion Canlyniadau ac eraill ddysgu ar gyfer etholiadau yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i adolygu'r ffordd rydym yn cefnogi ac yn herio Swyddogion Canlyniadau er mwyn sicrhau y gallant gynnal etholiadau'n effeithiol, gan ddysgu gwersi o etholiadau 2017.

2.7 Yn y bennod hon hefyd, nodir argymhellion ar gyfer newidiadau deddfwriaethol er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.

Perfformiad Swyddogion Canlyniadau yn etholiad cyffredinol 2017: Etholaethau Plymouth

2.8 Yn Plymouth cafwyd pedwar gwall ar wahân wrth weinyddu etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017 mewn amrywiaeth o weithgareddau yn nhair etholaeth Plymouth Moor View, Plymouth Sutton a Devonport a De-orllewin Dyfnaint:

- Dosbarthodd y Swyddog Canlyniadau gardiau pleidleisio arferol a chardiau pleidleisio drwy'r post i tua 35,000 o bleidleiswyr post.
- Nid anfonodd y Swyddog Canlyniadau ffeil data o 1,926 o bleidleiswyr post i'r argraffwyr, a olygodd na chafodd y pleidleiswyr becynnau pleidleisio drwy'r post pan ddylent fod wedi'u cael.
- Ni hysbysodd y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer Plymouth 331 o etholwyr eu bod wedi'u tynnu oddi ar y gofrestr etholiadol o ganlyniad i weithdrefnau adolygu a gychwynnwyd cyn cyhoeddi'r etholiad.
- Ni wnaeth y Swyddog Canlyniadau gynnwys 6,587 o bleidleisiau a gafodd eu cyfrif o orsafoedd pleidleisio yn ward Efford a Lipson ar gyfer etholaeth Plymouth Sutton a Devonport yn yr hysbysiad cyhoeddus o nifer y pleidleisiau ar gyfer pob ymgeisydd pan gafodd y canlyniad ei ddatgan.

2.9 Mae'n debygol bod y gwallau hyn wedi cael effaith sylweddol ar bleidleiswyr, na lwyddodd rhai ohonynt i sicrhau eu bod wedi'u cofrestru'n briodol a/na gallu pleidleisio yn yr etholiadau. Effeithiodd y gwallau hefyd ar hyder pleidleiswyr, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr yn y broses o gynnal yr etholiad. Oherwydd maint y problemau, comisiynodd y Swyddog Canlyniadau adolygiad annibynnol yn union ar ôl yr etholiad. Cynhaliwyd yr adolygiad gan Dr Dave Smith, a chynorthwyodd y Comisiwn Etholiadol wrth lunio'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad.

2.10 Cofnododd Dr Smith ei ganfyddiadau ym mis Medi 2017.⁷ Archwiliodd ei adroddiad bob un o'r materion yn fanwl a gwnaeth nifer o argymhellion er mwyn sicrhau na fydd y gwallau hyn yn codi eto. Roedd ei argymhellion yn cynnwys: yr angen am staff â'r sgiliau a phrofiad priodol mewn swyddi ar lefel weithredol; yr angen am weithdrefnau, systemau a phrosesau gweithredu wedi'u dogfennu'n briodol i sicrhau parhad; gweithdrefnau sicrhau ansawdd

⁷ Dr David Smith [Plymouth City Council – Review of Registration and Elections](#) (Medi 2017)

ac archwilio cadarn; a sefydlu cynllun gwella er mwyn sicrhau bod yr argymhellion llawn wedi'u gweithredu.

2.11 Rydym wedi dod i'r casgliad na chyrhaeddodd y Swyddog Canlyniadau ar gyfer Plymouth elfennau o'r safonau perfformiad yn etholiad cyffredinol y DU am na wnaeth:

- Datblygu a gweithredu prosesau rheoli prosiect cadarn.
- Sicrhau bod prosesau cadarn ar waith ar gyfer sicrhau nad oes unrhyw wallau ar ddeunyddiau pleidleiswyr.
- Sicrhau bod pleidleiswyr wedi derbyn pecynnau pleidleisio drwy'r post cyn gynted â phosibl fel bod pleidleiswyr yn cael cymaint o amser â phosibl i weithredu ar y wybodaeth.
- Sicrhau bod prosesau cyfrif wedi cael eu dylunio a'u rheoli i sicrhau canlyniad cywir, gyda llwybr archwilio clir.

2.12 Nid yw'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer Plymouth wedi derbyn y ffi yr oedd ganddo hawl iddi gan Lywodraeth y DU am ei wasanaethau yn gweinyddu etholiad mis Mehefin 2017.

2.13 Mae'r Swyddog Canlyniadau yn glir ynghylch yr angen i wella'r broses o gynnal etholiadau yn y dyfodol yn Plymouth, ac mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion yr adolygiad annibynnol. Nodwn yr heriau sylweddol a wynebodd y Swyddog Canlyniadau wrth recriwtio'r staff angenrheidiol ar gyfer rolau allweddol er mwyn cefnogi'r broses o weinyddu etholiadau a phrosesau cofrestru, a gyfrannodd at y problemau yn etholiad mis Mehefin 2017. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Plymouth er mwyn sicrhau y gwneir y gwelliannau gofynnol.

Perfformiad Swyddogion Canlyniadau yn etholiad cyffredinol 2017: Etholaeth Newcastle-under-Lyme

2.14 Cafwyd sawl gwall wrth weinyddu etholiad cyffredinol y DU ym mis Mehefin 2017 mewn amrywiaeth o weithgareddau yn etholaeth Newcastle-under-Lyme, yn cynnwys:

- Methodd y Swyddog Canlyniadau â dosbarthu mwy na 500 o bleidleisiau post i etholwyr a oedd wedi gwneud ceisiadau llwyddiannus amdanynt.
- Nid oedd gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ddigon o brosesau ar waith er mwyn sicrhau bod yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â cheisiadau pleidleisio absennol a cheisiadau i gofrestru wedi cael eu derbyn a'u gweithredu.
- Ni wnaeth y Swyddog Cofrestru Etholiadol bennu a phrosesu 439 o geisiadau dilys i gofrestru erbyn y dyddiad cau statudol.
- Prosesodd y Swyddog Cofrestru Etholiadol 509 o geisiadau i gofrestru erbyn y dyddiad cau statudol, ond fe'i hychwanegodd at y gofrestr anghywir, oedd yn golygu na allent bleidleisio.

2.15 Fel yn Plymouth, cafodd y problemau hyn effaith ar allu pleidleiswyr i gymryd rhan yn yr etholiad ac ar hyder yn y broses o gynnal y bleidlais yn yr ardal honno.

2.16 Comisiynydd y Swyddog Canlyniadau a Chyngor Bwrdeistref Newcastle-under-Lyme adolygiad annibynnol ar ôl yr etholiad, a gynhaliwyd gan Andrew Scallan CBE ar ran Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol.

2.17 Cyhoeddwyd canfyddiadau adolygiad Mr Scallan ar 27 Tachwedd 2017. Roedd ei adroddiad yn cynnwys tystiolaeth am y gwallau a'r problemau a gafwyd yn Newcastle-upon-Lyme, a gwnaeth sawl argymhelliad, yn cynnwys: cymryd camau i fynd i'r afael â diffyg profiad staff y swyddfa etholiadau; cynnal adolygiad annibynnol er mwyn sicrhau bod holl arferion y swyddfa etholiadau yn cydymffurfio â'r gyfraith; rhoi hyfforddiant ar feddalwedd etholiad a chyfraith etholiadau i staff y swyddfa etholiadau a'r Pennaeth Archwilio ac Etholiadau; ac adolygu gofynion adnoddau'r swyddfa etholiadau er mwyn sicrhau y gall ymdopi mewn adegau prysur cyn etholiadau yn y dyfodol.

2.18 Nawr, byddwn yn cwblhau ein proses ffurfiol o asesu perfformiad y Swyddog Canlyniadau ar gyfer Newcastle-under-Lyme ac yn cadarnhau ein hasesiad terfynol cyn diwedd y flwyddyn. Edrychwch ymlaen at weithio gyda'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau y gwneir y gwelliannau gofynnol fel y gellir adfer hyder yn y broses o weinyddu etholiadau yn Newcastle-under-Lyme yn y dyfodol.

Cyn y diwrnod pleidleisio

Enwau cyffredin ymgeiswyr

2.19 Rhaid i ymgeiswyr roi eu henw llawn ar eu ffurflen enwebu, ac fel arfer, hon yw'r wybodaeth a gaiff ei hargraffu ar y papur pleidleisio. Fodd bynnag, gallant ddewis nodi bod ganddynt enw cyffredin arall ac argraffu hwn ar y papur pleidleisio yn lle hynny:

- Gall ymgeiswyr ofyn am gael defnyddio **enw cyntaf a/neu gyfenw cyffredin**. Er enghraifft, efallai mai 'Andy' yw'r enw cryno a ddefnyddir ar ei gyfer, yn lle ei enw llawn cyntaf sef 'Andrew'.
- Caiff ymgeiswyr hefyd ddefnyddio **blaenlythrennau** fel rhan o'u henw cyffredin.

2.20 Mae cyfraith etholiadau yn nodi'n glir bod enw cyffredin yn un sy'n wahanol i **unrhyw** enw cyntaf neu gyfenw arall. Mae hynny'n golygu na all ymgeisydd hepgor unrhyw enwau canol o'r papur pleidleisio drwy nodi ei enw cyntaf fel enw cyffredin. Yn yr un modd, ni all hepgor ei enw cyntaf o'r papur pleidleisio drwy nodi enw canol fel enw cyffredin.

2.21 Cododd ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol bryderon â Swyddogion Canlyniadau ac yn uniongyrchol â ni bod hyn yn golygu na allai ymgeiswyr roi'r enw a ddefnyddir yn gyffredin ar eu cyfer ar y papur pleidleisio. Tynnwyd

sylw at y mater hwn gennym ar ôl etholiad cyffredinol y DU ym mis Mai 2015 hefyd.

2.22 Rydym yn dal i argymhell y dylai ymgeiswyr allu sefyll etholiad gan ddefnyddio unrhyw enw cyffredin sydd ganddynt (ar yr amod nad yw'n ddryslyd neu'n dramgwyddus), er mwyn helpu pleidleiswyr i'w hadnabod ar y papur pleidleisio.

Argymhelliad 1: Egluro'r gyfraith mewn perthynas ag enwau cyffredin ymgeiswyr

Ar gyfer pob etholiad lle na wneir hyn, dylai llywodraethau'r DU sicrhau nad yw'r gyfraith yn nodi y dylai enw cyffredin ymgeisydd fod yn wahanol i unrhyw enw cyntaf neu gyfenw arall sydd ganddo. Dylai'r gyfraith gadw'r mesurau diogelwch cyffredol y gall Swyddog Canlyniadau wrthod enw cyffredin ar y sail ei fod yn debygol o gamarwain neu ddrysu etholwyr, neu ei fod yn anwedus neu'n dramgwyddus.

Asesiadau perfformiad: paratoi cardiau pleidleisio

2.23 Bwriad ein fframwaith safonau perfformiad yw helpu Swyddogion Canlyniadau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn gyson i bleidleiswyr a'r rhai sy'n sefyll etholiad. Mae'n egluro ein bod yn disgwyl i Swyddogion Canlyniadau sicrhau bod pleidleiswyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mewn fformat hygyrch ac mewn da bryd i fwrw eu pleidlais. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pleidleiswyr yn derbyn cardiau pleidleisio cyn gynted â phosibl fel bod pleidleiswyr yn cael cymaint o amser â phosibl i weithredu ar y wybodaeth a geir arnynt.

2.24 Cafwyd sawl problem gyda chardiau pleidleisio yn etholiad cyffredinol y DU, a cheir crynodeb ohonynt isod.

Etholaeth De Thanet

2.25 Dosbarthodd y Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer etholaeth De Thanet gardiau pleidleisio i tua 11,500 o bleidleiswyr a oedd yn cynnwys enw anghywir yr etholaeth. O ganlyniad, dosbarthodd y Swyddog Canlyniadau Gweithredol gardiau pleidleisio newydd gydag enw cywir yr etholaeth i'r holl etholwyr yr effeithiwyd arnynt.

2.26 Daethom i'r casgliad na wnaeth y Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer De Thanet gyrraedd elfennau o [safon perfformiad 1 y Swyddog Canlyniadau](#) am nad oedd wedi rhoi prosesau cadarn ar waith i sicrhau nad oedd unrhyw wallau ar ddeunyddiau pleidleiswyr. Gallai rhai etholwyr yn Ne Thanet fod wedi meddwl bod eu hetholaeth wedi newid gan achosi dryswch.

Etholaeth Hitchin a Harpenden

2.27 Penododd y Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer Hitchin a Harpenden (sef y Swyddog Canlyniadau ar gyfer Cyngor Dinas a Dosbarth St Albans) y Swyddog Canlyniadau lleol ar gyfer Cyngor Dosbarth Gogledd

Swydd Hertford fel ei ddirprwy, a'i ddirprwyo i ddsbarthu cardiau pleidleisio i etholwyr sy'n rhan o'r etholaeth.

2.28 Mae cyfraith etholiadau yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau ddsbarthu cardiau pleidleisio i etholwyr cymwys cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad etholiad. Y dyddiad olaf ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiad etholiad ar gyfer etholiad cyffredinol mis Mehefin 2017 oedd 8 Mai, fwy na phedair wythnos cyn y diwrnod pleidleisio. Methodd y Swyddog Canlyniadau â ddsbarthu'r cardiau pleidleisio ar gyfer ardal Gogledd Swydd Hertford yr etholaeth yn brydlon, gan olygu bod cardiau pleidleisio wedi'u ddsbarthu'n hwyr i tua 40,000 o etholwyr.

2.29 Daethom i'r casgliad na wnaeth y Swyddog Canlyniadau Gweithredol gyrraedd elfennau o [safon perfformiad 1 y Swyddog Canlyniadau](#) am nad oedd wedi rhoi prosesau cadarn ar waith ar sicrhau bod cardiau pleidleisio yn cael eu ddsbarthu cyn gynted â phosibl fel bod etholwyr yn cael cymaint o amser â phosibl i weithredu ar y wybodaeth. Efallai nad yw rhai etholwyr yn etholaeth Hitchin a Herpenden wedi cael y wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt ar y cerdyn pleidleisio mewn pryd i weithredu arni, er enghraifft er mwyn newid eu manylion cofrestru neu wneud cais am bleidlais absennol.

2.30 Byddwn yn parhau i weithio gyda Swyddogion Canlyniadau De Thanet, St Albans a Gogledd Swydd Hertford er mwyn gyrru gwelliannau a'u helpu i roi trefniadau ar waith i sicrhau y caiff gwasanaeth o safon gyson uchel ei ddarparu i bleidleiswyr a'r sawl sy'n sefyll etholiad.

Pleidleisio absennol

Pleidleisio drwy'r post

2.31 Mae pleidleisio drwy'r post yn dal i fod yn ddewis pleidleisio poblogaidd ymysg etholwyr. Dewisodd mwy na 8,412,000 o etholwyr (ychydig o dan 18% o gyfanswm yr etholaeth) gael pleidlais bost yn etholiad cyffredinol y DU yn 2017. Gall y prosesau ymarferol o weinyddu prosesau pleidleisio drwy'r post – argraffu, crynhoi a ddsbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post i etholwyr ac yna prosesau pleidleisiau post a ddychwelwyd – fod yn gymhleth a gofyn am fewnbwn sylweddol staff ac adnoddau cyflenwyr er mwyn sicrhau y cânt eu cynnal yn effeithiol. Arweiniodd amser cau'r etholiadau ym mis Mai a mis Mehefin 2017 at fwy o bwysau i Swyddogion Canlyniadau, gweinyddwyr etholiadol a'u cyflenwyr.

2.32 Mae manteision sylweddol os bydd Swyddogion Canlyniadau yn argraffu ac yn anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post cyn gynted â phosibl yn amserlen yr etholiad, gan fod gan bleidleiswyr fwy o amser i dderbyn a dychwelyd eu pleidleisiau post wedi'u cwblhau, yn enwedig y rhai sydd angen i'w pecynnau pleidleisio drwy'r post gael eu hanfon dramor. Mae ein canllawiau yn dal i egluro y dylai Swyddogion Canlyniadau anfon pecynnau pleidleisio drwy'r post cyn gynted â phosibl ym mhob achos, ac yn benodol, y dylent roi blaenoriaeth i'r broses o ddsbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r

post i gyfeiriadau tramor, yn cynnwys aelodau o Luoedd Arfog Prydain sydd wedi'u lleoli dramor.

2.33 Mae Swyddogion Canlyniadau wedi nodi eu bod wedi wynebu nifer o anawsterau ymarferol wrth sicrhau bod pecynnau pleidleisio drwy'r post yn cael eu dosbarthu cyn gynted â phosibl ar ôl i'r enwebiadau gau ar 11 Mai. Yn benodol, nid yw'r farchnad ar gyfer argraffu arbenigol a chyflenwyr cynhyrchu a all gyflawni gofynion o ran pleidleisio absennol a phapurau pleidleisio i Swyddogion Canlyniadau yn y DU yn fawr, ac roeddent dan bwysau ychwanegol annisgwyl i gyflawni oherwydd y cynhaliwyd etholiad cyffredinol mis Mehefin yn gymharol fyr rybudd a hynny dim ond mis ar ôl yr etholiadau a drefnwyd ar gyfer mis Mai.

2.34 Yn flaenorol, rydym wedi tynnu sylw at y ffaith bod gallu cyflenwyr argraffu i ateb y galw yn peri risg sylweddol i allu Swyddogion Canlyniadau i gynhyrchu a dosbarthu pleidleisiau post mewn da bryd. Amlygwyd y risg unwaith eto yn sgil amgylchiadau penodol etholiadau mis Mai a mis Mehefin.

2.35 Byddwn yn parhau i weithio gyda llywodraethau'r DU a'r Bwrdd Cydlynu a Chynghori Etholiadol er mwyn archwilio ffyrdd o wella'r maes hwn o gynnal etholiadau a lleihau'r risgiau hynny.

Argraffu a dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post

2.36 Rydym yn disgwyl i Swyddogion Canlyniadau sicrhau bod pleidleiswyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mewn fformat hygyrch ac mewn da bryd i fwrw eu pleidlais. Rhaid i Swyddogion Canlyniadau sicrhau bod prosesau cadarn ar waith ar gyfer sicrhau nad oes unrhyw wallau ar ddeunyddiau pleidleisio, a bod pleidleiswyr yn derbyn pecynnau pleidleisio drwy'r post cyn gynted â phosibl fel bod pleidleiswyr yn cael cymaint o amser â phosibl i weithredu ar y wybodaeth.

2.37 Roedd sawl enghraifft benodol o wallau yn y broses o argraffu a dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post yn etholiadau mis mai 2017, a gaiff eu crynhoi isod:

- Dosbarthodd y Dirprwy Swyddog Canlyniadau ar gyfer bwrdeistref Colchester bapurau pleidleisio i 400 o bleidleiswyr post gyda rhifau papur pleidleisio anghywir.
- Dosbarthodd y Dirprwy Swyddog Canlyniadau ar gyfer dosbarth Uttlesford bapurau pleidleisio i tua 700 o bleidleisiau post gyda rhifau papurau pleidleisio anghywir nad oeddent yn cyfateb i'r rhif ar y datganiad pleidleisio drwy'r post.
- Dosbarthodd y Dirprwy Swyddog Canlyniadau ar gyfer dosbarth Canol Sussex ddatganiadau pleidleisio drwy'r post i 14,600 o bleidleiswyr post yn y dosbarth nad oeddent yn cynnwys y testun cyfeiriol a'r saeth yn nodi lle y dylai'r pleidleisiwr roi ei lofnod.
- Dosbarthodd y Swyddog Canlyniadau ar gyfer Northumberland ddau bapur pleidleisio Cyngor Sir i 478 o bleidleiswyr post, a methodd hefyd â

dosbarthu papurau pleidleisio etholiad cyngor plwyf i'r pleidleiswyr hynny.

2.38 Ym mhob achos, cymerwyd camau i leihau unrhyw effaith andwyol ar etholwyr neu'r sawl sy'n sefyll etholiad, yn cynnwys dosbarthu pecynnau pleidleisio newydd i etholwyr yr effeithiwyd arnynt unwaith y nodwyd y broblem. Fodd bynnag, nid yw hyn yn negyddu'r ffaith, yn ein barn ni, nad oedd ganddynt brosesau cadarn ar waith ar gyfer sicrhau nad oedd unrhyw wallau ar ddeunyddiau i bleidleiswyr. Efallai na fu'n bosibl i rai etholwyr yn yr ardaloedd hyn fwrw pleidlais ddilys o ganlyniad i hynny.

2.39 Ym mhob achos, adolygodd y Swyddog Canlyniadau'r materion a nododd newidiadau i'w prosesau er mwyn mynd i'r afael ag achosion y gwallau hyn, ac o ganlyniad, ni chafwyd unrhyw broblemau tebyg yn etholiad cyffredinol mis Mehefin yn unrhyw un o'r ardaloedd hyn.

Pleidleisio drwy ddirprwy

Ceisiadau am bleidlais drwy ddirprwy yng Ngogledd Iwerddon

2.40 Tynnodd rhai pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yng Ngogledd Iwerddon sylw at bryderon yn yr wythnosau cyn y diwrnod pleidleisio am nifer yr etholwyr a benododd ddirprwy i bleidleisio ar eu rhan. Penododd cyfanswm o 11,707 o etholwyr ddirprwy (sy'n cynrychioli 0.94% o gyfanswm etholaeth Gogledd Iwerddon, o gymharu â 0/61% o gyfanswm yr etholaeth ledled y DU sy'n penodi ddirprwyon). Roedd hyn yn gynydd o gymharu ag etholiadau diweddar yng Ngogledd Iwerddon:

- Penodwyd **5,432** o ddirprwyon yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU ym mis Mai 2015
- Penodwyd **6,644** o ddirprwyon ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016
- Penodwyd **9,920** o ddirprwyon ar gyfer etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Mawrth 2017

2.41 Ni chawsom unrhyw gwynion na thystiolaeth benodol am geisiadau twyllodrus i benodi ddirprwyon, ond rydym yn cydnabod bod rhywfaint o bryder ynghylch p'un a allai etholwyr fod wedi cael eu camarwain neu eu gorfodi i gwblhau cais. Cynhaliodd y Prif Swyddog Etholiadol adolygiad mewnol o geisiadau am bleidlais drwy ddirprwy ar ôl etholiad cyffredinol 2017 ac mae'n fodlon bod ei swyddfa wedi cyflawni ei dyletswydd yn ôl y gyfraith ac wedi cymhwyso'r gweithdrefnau cywir er mwyn craffu ar geisiadau cyn eu hawdurdodi.

2.42 Cyfeiriodd y Prif Swyddog Etholiadol saith achos i Wasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon ymchwilio iddynt lle cafwyd pryderon nad oedd cais i benodi ddirprwy wedi'i gwblhau'n briodol, er enghraifft, lle roedd yn ymddangos ei fod wedi'i lofnodi gan rywun heblaw am yr etholwr. Mae'r achosion hyn yn destun ymchwiliad o hyd, a'n nod yw cyflwyno adroddiad erbyn mis Mawrth 2018 ar ddata ynghylch canlyniad achosion ledled y DU o bob etholiad a gynhaliwyd yn 2017.

2.43 Yn ei adroddiad yn 2016 ar dwyll etholiadol, gwnaeth Syr Eric Pickles sawl argymhelliad gyda'r nod o atgyfnerthu uniondeb pleidleisiau drwy ddirprwy, yn cynnwys egluro troseddau yn ymwneud â chymell neu atal rhywun rhag gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy.⁸ Rydym yn dal i gefnogi'r rhan fwyaf o argymhellion Syr Eric, ac rydym am weld rhagor o gynnydd gan lywodraethau'r DU tuag at eu gweithredu.

Argymhelliad 2: Gweithredu'r argymhellion perthnasol o adolygiad Syr Eric Pickles o dwyll etholiadol

Dylai llywodraethau'r DU gyflwyno deddfwriaeth sy'n ofynnol i weithredu'r argymhellion perthnasol o adolygiad Syr Eric Pickles o dwyll etholiadol.

Mae llywodraeth y DU eisoes wedi ymateb ac wedi derbyn y rhan fwyaf o argymhellion Syr Eric, a dylai nodi ei chynlluniau ar gyfer eu gweithredu.

Ceisiadau am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy

2.44 Cododd etholwyr, ymgeiswyr a chynrychiolwyr etholedig bryderon gyda ni, o dan y rheolau a nodir mewn cyfraith etholiadol ar hyn o bryd, nad oedd rhai pobl yn gymwys i benodi dirprwy mewn argyfwng ac nad oeddent yn gallu pleidleisio yn etholiad cyffredinol 2017 o ganlyniad i hynny. Roedd y rhain yn cynnwys enghreifftiau lle bu'n rhaid i etholwyr ddelio ag argyfyngau meddygol teuluol difrifol ar y diwrnod pleidleisio, a hefyd lle y cafodd gwasanaeth etholwr fel aelod o'r lluoedd arfog ei ymestyn yn ddirybudd.

2.45 Mae etholwyr wedi codi'r materion hyn gyda ni, a gydag ASau a chynrychiolwyr etholedig eraill, mewn sawl etholiad diweddar. Rydym yn dal i argymhell y dylid ymestyn yr amgylchiadau cymhwys ar gyfer penodi dirprwy mewn argyfwng. Dylai pobl hefyd allu bod yn gymwys i benodi dirprwy mewn argyfwng os bydd y canlynol yn berthnasol:

- cyfrifoldebau gofalu nas rhagwelwyd; neu
- wedi colli perthynas agos.

Argymhelliad 3: Ymestyn yr amgylchiadau cymhwys er mwyn i etholwyr benodi dirprwy mewn argyfwng

Dylai llywodraethau'r DU ddiwygio cyfraith etholiadol er mwyn ymestyn yr amgylchiadau cymhwys ar gyfer penodi dirprwy mewn argyfwng, fel y byddai'r sawl sydd â chyfrifoldebau gofalu nas rhagwelwyd neu sydd wedi colli perthynas agos hefyd yn gymwys.

⁸ Syr Eric Pickles [*Securing the ballot – Report of Sir Eric Pickles' review into electoral fraud*](#) (Awst 2016)

Pleidleiswyr tramor

2.46 Mae data gan Swyddogion Canlyniadau yn dangos bod mwy na 280,000 o ddinasyddion Prydeinig wedi'u cofrestru fel etholwyr tramor yn etholiad cyffredinol 2017, cynnydd sylweddol o gymharu ag etholiadau 2010 a 2015:

- Rhagfyr 2010: **33,000** o ddinasyddion Prydeinig wedi'u cofrestru fel etholwyr tramor
- Mai 2015: **106,000** o ddinasyddion Prydeinig wedi'u cofrestru fel etholwyr tramor
- Mehefin 2017: **285,000** o ddinasyddion Prydeinig wedi'u cofrestru fel etholwyr tramor

2.47 Gwnaeth nifer sylweddol o ddinasyddion Prydeinig gais i gofrestru fel etholwyr tramor cyn refferendwm yr UE ym mis Mehefin 2016: ar ôl y refferendwm, gwnaethom nodi bod tua 135,400 o etholwyr tramor ychwanegol wedi'u hychwanegu at y cofrestrau etholiadol rhwng 17 Mawrth a 9 Mehefin 2016. Mae cyfraith etholiadol yn nodi bod angen gwneud cais newydd i gofrestru fel etholwr tramor bob 12 mis, ac mae hyn wedi golygu bod angen i lawer o bobl a wnaeth gais i gofrestru ym mis Mai ac ar ddechrau mis Mehefin 2016 wneud cais eto er mwyn gallu pleidleisio yn etholiad cyffredinol mis Mehefin 2017.

2.48 Cysylltodd etholwyr tramor â ni eto yn ystod ac ar ôl yr etholiad er mwyn lleisio pryder iddynt fethu â dychwelyd eu pleidleisiau post mewn pryd cyn y diwrnod pleidleisio. Roedd cyfnod o bedair wythnos galendr rhwng cau enwebiadau (pan gaiff manylion yr ymgeiswyr i'w hargraffu ar y papurau pleidleisio eu cadarnhau) a'r diwrnod pleidleisio. Mewn rhai achosion, nid oedd hyn yn ddigon o amser i sicrhau y gallai'r Swyddog Canlyniadau argraffu pecynnau pleidleisio drwy'r post, eu hanfon at yr etholwr a'u derbyn gan yr etholwr, eu cwblhau a'u dychwelyd at y Swyddog Canlyniadau cyn 10pm ar 8 Mehefin.

2.49 Gwnaethom nodi problemau tebyg ar ôl etholiad cyffredinol 2015 a refferendwm yr UE yn 2016. Gwnaethom argymhell y dylai Swyddogion Canlyniadau sicrhau bod pecynnau pleidleisio drwy'r post ar gyfer etholiadau yn y dyfodol yn cael eu dosbarthu i etholwyr tramor cyn gynted â phosibl ac y dylent gynnwys y stamp dychwelyd, fel y gall pleidleiswyr eu derbyn a'u dychwelyd cyn gynted â phosibl cyn y diwrnod pleidleisio. Roeddem yn falch bod Llywodraeth y DU wedi sicrhau y dylai Swyddogion Canlyniadau ar gyfer etholiad cyffredinol mis Mehefin 2017 ddefnyddio'r Gwasanaeth Ymateb Busnes Rhyngwladol ar gyfer pecynnau pleidleisio drwy'r post tramor, er gwaethaf yr amser cymharol fyr rhwng cyhoeddi'r etholiad a dosbarthu pecynnau pleidleisio drwy'r post i etholwyr tramor.

2.50 Cyn etholiad cyffredinol 2017, gwnaethom hefyd gynghori etholwyr tramor i ystyried penodi dirprwy sy'n byw yn y DU i fwrw pleidlais ar eu rhan yn hytrach na phleidleisio drwy'r post. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod efallai na fydd llawer o ddinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor, yn enwedig y

sawl sydd wedi bod i ffwrdd am gyfnod sylweddol o amser, yn gallu nodi person cymwys sy'n byw yn y DU y gallant ei benodi fel eu dirprwy.

2.51 Ailadroddodd maniffesto etholiadol y blaid Geidwadol ymrwymiad i ehangu'r etholfraint ar gyfer dinasyddion Prydeinig sy'n byw dramor i bleidleisio yn etholiadau senedd y DU. Byddai hyn yn galluogi dinasyddion Prydeinig sydd wedi byw y tu allan i'r DU ers mwy na 15 mlynedd i barhau i bleidleisio mewn etholiadau yn y DU. Os caiff cyfraith etholiadol ei newid cyn yr etholiad cyffredinol nesaf a drefnwyd ar gyfer y DU yn 2022, mae'n debygol y bydd mwy o ddinasyddion Prydeinig tramor yn dibynnu ar weithdrefnau cyffredol ar gyfer pleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy.

Argymhelliad 4: Gwella mynediad i'r broses bleidleisio ar gyfer etholwyr tramor

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a Swyddogion Canlyniadau er mwyn datblygu cynigion ymarferol ac effeithiol i'w gwneud yn haws i etholwyr tramor fwrw eu pleidleisiau mewn pryd i gael eu cyfrif mewn etholiadau, y gellid eu cynnwys mewn deddfwriaeth yn y dyfodol i ymestyn yr etholfraint i ddinasyddion Prydeinig dramor.

Y diwrnod pleidleisio a'r broses gyfrif

Tryloywder a diogelwch mewn gorsafoedd pleidleisio a lleoliadau cyfrif

2.52 Rydym yn cynnal cofrestrir DU o arsyllwyr achrededig,⁹ a rhwng cyhoeddiad y Prif Weinidog ar 18 Ebrill a'r diwrnod pleidleisio, ychwanegwyd cyfanswm o 442 o arsyllwyr achrededig i'r gofrestr.

2.53 Mae arsyllu etholiadol gan gynrychiolwyr sy'n ddinasyddion amhleidiol yn elfen hanfodol sy'n ennyn hyder yn y broses etholiadol a democrataidd. Un o rolau'r Comisiwn yw awdurdodi pobl a sefydliadau i arsyllu etholiadau a referenda perthnasol yn y DU. Mae'n ofynnol i sefydliadau ac unigolion sy'n gwneud cais i gael eu hachredu fel arsyllwyr etholiadol ddilyn Cod Ymarfer y Comisiwn ar gyfer arsyllwyr etholiadol a rhaid iddynt lofnodi datganiad yn cadarnhau eu bod wedi darllen a deall y cod.¹⁰

2.54 Ar ôl cael ei achredu, mae arsyllwr etholiadol yn gymwys i fod yn bresennol pan gaiff papurau pleidleisio drwy'r post eu dosbarthu a'u derbyn, mewn gorsafoedd pleidleisio ac yn y cyfrif. Nid yw'n ofynnol i arsyllwyr achrededig hysbysu Swyddogion Canlyniadau am eu cynlluniau cyn bod yn

⁹Ceir rhagor o wybodaeth am y cofrestrau ar ein gwefan yn <https://www.electoralcommission.org.uk/find-information-by-subject/elections-and-referendums/upcoming-elections-and-referendums/observing-elections-and-referendums>

¹⁰ Y Comisiwn Etholiadol *Code of practice for electoral observers – Electoral observation at United Kingdom elections* (February 2012)

bresennol mewn gorsafoedd pleidleisio a chanolfannau cyfrif, er ein bod wedi annog arsyllwyr i wneud hynny. Fodd bynnag, ni ddylent rwystro prosesau etholiadol, a rhaid iddynt fod yn hollol ddiuedd yn wleidyddol bob amser.

2.55 Tynnodd rhai Swyddogion Canlyniadau ein sylw at weithgareddau arsyllwyr achrededig. Yn benodol, roedd hyn yn cynnwys pryder nad oedd Swyddogion Llywyddu bob amser yn cael eu hysbysu ymlaen llaw y byddai arsyllwyr yn bresennol mewn gorsafoedd pleidleisio neu ganolfannau cyfrif. Roedd y pryderon hyn yn arbennig o amlwg o ystyried yr ymosodiadau terfysgol a gafwyd ym Manceinion a Llundain yn ystod yr wythnosau cyn y diwrnod pleidleisio.

2.56 Mae cynllun arsyllwyr y Comisiwn wedi bod yn rhedeg ers bron i ddeg mlynedd ac rydym bellach yn bwriadu cynnal adolygiad llawn o'r ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu ledled y DU. Byddwn yn ceisio safbwyntiau Swyddogion Canlyniadau, arsyllwyr a rhanddeiliaid eraill gyda'r nod o roi unrhyw newidiadau i'r broses ar waith cyn yr etholiadau a drefnwyd ar gyfer 2019.

Aseidiadau perfformiad: Diwrnod pleidleisio

2.57 Mae ein fframwaith safonau perfformiad yn egluro ein bod yn disgwyl i Swyddogion Canlyniadau roi mesurau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod pleidleiswyr yn hyderus y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd ganddynt.

Etholaethau Warley, Dwyrain Gorllewin Bromwich a Gorllewin Gorllewin Bromwich

2.58 Mewn dwy orsaf bleidleisio yn etholaeth Warley, dosbarthodd Swyddogion Llywyddu bapurau pleidleisio a gyflwynwyd mewn camgymeriad yn lle papurau pleidleisio arferol i gyfanswm o saith pleidleisiwr, a rhoddodd y pleidleiswyr eu papurau wedi'u cwblhau yn y blwch pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio. Dim ond mewn nifer gyfyngedig o amgylchiadau a ragnodwyd y dylid dosbarthu papurau pleidleisio a gyflwynwyd, a dylid eu rhoi mewn amlen swyddogol arbennig; byth yn y blwch pleidleisio.

2.59 Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol ar gyfer Cyngor Sandwell gyfarwyddiadau i staff gorsafoedd pleidleisio y dylid agor y blychau pleidleisio wedi'u selio yn y gorsafoedd pleidleisio; y dylid tynnu'r papurau pleidleisio a gyflwynwyd o'r blychau pleidleisio; y dylai staff farcio papurau pleidleisio arferol yn unol â phleidleisiau a gafodd eu marcio ar y papurau pleidleisio a gyflwynwyd a'u rhoi yn y blychau pleidleisio; ac y dylid ail-selio'r blychau pleidleisio.

2.60 Ni chafodd y Swyddog Canlyniadau Gweithredol ei hysbysu am y cyfarwyddiadau a roddwyd i staff gorsafoedd pleidleisio tan sawl diwrnod ar ôl yr etholiad. Roedd y dull gweithredu a gymerwyd yn achos sylweddol a difrifol o dorri prosesau pleidleisio a ragnodwyd.

2.61 Cafwyd gwall arall ar y diwrnod pleidleisio pan fethodd staff o wasanaethau etholiadol Cyngor Sandwell ag archwilio a gwagio'r blwch

pleidleisio drwy'r post yn ardal derbynfa swyddfa'r Cyngor. Gwelwyd yn ddiweddarach bod y blwch pleidleisio yn cynnwys 23 o becynnau pleidleisio drwy'r post. Nid oedd y rhain wedi'u hagor a'u dilysu ac nid oedd y papurau pleidleisio wedi'u cyfrif.

2.62 Daethom i'r casgliad nad oedd y Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer etholaethau Warley, Dwyrain Gorllewin Bromwich a Gorllewin Gorllewin Bromwich wedi cyrraedd elfennau o [safon perfformiad 1 i Swyddogion Canlyniadau](#) am nad oedd wedi rhoi gweithdrefnau cadarn ar waith i gynnal y broses o storio papurau pleidleisio a phecynnau pleidleisio drwy'r post yn ddiogel bob amser. Oherwydd y ddau wall, efallai nad oedd rhai etholwyr yn hyderus y byddai eu pleidlais yn cael ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd ganddynt. Tanseiliodd y gwall yn y gorsafoedd pleidleisio yn etholaeth Warley, a'r camau gweithredu dilynol a gymerwyd gan y Swyddogion Llywyddu dan gyfarwyddyd y Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol, gyfrinachedd ac uniondeb y broses pleidleisio yn yr orsaf pleidleisio honno.

Pleidleisio ddwywaith

2.63 Nododd ein hadroddiad blaenorol ar gofrestru etholiadol yn etholiad cyffredinol mis Mehefin 2017 bryderon y gall rhai pobl fod wedi pleidleisio ddwywaith yn yr etholiad cyffredinol, yn seiliedig ar honiadau a wnaed gan bleidleiswyr ar y cyfryngau cymdeithasol. Er ei bod yn bosibl, mewn rhai amgylchiadau, i rywun fod wedi'i gofrestru'n gyfreithlon i bleidleisio mewn mwy nag un lle, mae'n drosedd i etholwr fwrw mwy nag un bleidlais ar ei ran ei hun yn etholiad cyffredinol Senedd y DU.

2.64 Nid ydym wedi ymchwilio i enghreifftiau penodol o bleidleisio ddwywaith honedig – lle ceir achosion posibl o droseddu, cyfrifoldeb heddluoedd ac erlynwyr yw asesu'r dystiolaeth er mwyn penderfynu a ddylid cymryd camau cyfreithiol. Gwnaethom gynghori heddluoedd y DU ar sut i ymchwilio i honiadau y gallai rhywun fod wedi pleidleisio ddwywaith, gan gynnwys cael y copi wedi'i farcio o'r gofrestr gan y Swyddogion Canlyniadau perthnasol.

2.65 Mae Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu wedi casglu gwybodaeth o heddluoedd ledled y DU am statws presennol eu hymchwiliadau i honiadau o bleidleisio ddwywaith. Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, rydym yn ymwybodol bod cyfanswm o 17 o honiadau unigol o bleidleisio ddwywaith wedi'u nodi o honiadau a wnaed yn uniongyrchol i'r heddlu neu'n anuniongyrchol drwy gynrychiolwyr etholedig, y wasg neu'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r honiadau hyn yn destun ymchwiliad o hyd, a'n nod yw cyflwyno adroddiad erbyn mis Mawrth 2018 ar ddata ynghylch canlyniad achosion ledled y DU o bob etholiad a gynhaliwyd yn 2017.

2.66 Nid yw'n ymddangos bod y dystiolaeth sydd ar gael hyd yma o ymchwiliadau'r heddlu yn nodi bod pobl wedi pleidleisio ddwywaith yn etholiad cyffredinol mis Mehefin ar unrhyw raddfa. Er hyn, mae'n destun pryder nad oes unrhyw ddull ar hyn o bryd ar gyfer ymchwilio'n gytûn i gofrestrau a gynhaliwyd gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol gwahanol er mwyn nodi

cofnodion dyblyg ledled Prydain Fawr, a'i bod yn ymddangos bod rhai pleidleiswyr wedi cyfaddef eu bod wedi manteisio ar y gwendid hwnnw.

2.67 Gwnaethom dynnu sylw at y cyfle i fynd i'r afael â'r natur agored i niwed hwn pan oedd Llywodraeth y DU yn datblygu ei chynlluniau i roi prosesau cofrestru etholiadol unigol ar waith ym Mhrydain Fawr yn 2011,¹¹ a gwnaethom hefyd argymhell y dylid gwneud rhagor o waith yn ein hadroddiad ym mis Gorffennaf ar brosesau cofrestru etholiadol yn etholiadol cyffredinol 2017. Argymhellodd Comisiynau'r Gyfraith yn y DU yn 2016 y dylid gofyn i etholwyr a oedd yn gwneud cais i gofrestru mewn perthynas ag ail gartref ddynodi pa gartref roeddent am gael eu cofrestru ynddo er mwyn pleidleisio mewn etholiadau cenedlaethol.¹²

Argymhelliad 5: Archwilio dulliau o leihau'r risg y bydd pobl yn pleidleisio mewn mwy nag un etholiad

Rydym am weithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn ystyried dulliau posibl o leihau'r risg y bydd pobl yn pleidleisio mewn mwy nag un etholaeth yn etholiadol cyffredinol y DU. Gallai hyn adeiladu ar waith er mwyn helpu i nodi a lleihau nifer y ceisiadau gofrestru etholiadol dyblyg.

Dylai'r Llywodraeth hefyd ystyried opsiynau eraill ar gyfer lleihau'r risg hon, fel ei gwneud yn ofynnol i bobl sydd wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol ar gyfer mwy nag un ardal awdurdod lleol, yn ôl y gyfraith, ddewis ym mha un o'r ddau gyfeiriad hynny y byddant yn pleidleisio yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU.

Cyfrif y pleidleisiau

2.68 Mae cyfraith etholiadol yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau ddechrau cyfrif y pleidleisiau ar gyfer etholiadol Senedd y DU o fewn pedair awr i ddiwedd y cyfnod pleidleisio (h.y. erbyn 2am y diwrnod ar ôl y diwrnod pleidleisio). Dim ond unwaith y bydd nifer y papurau pleidleisio ym mhob blwch pleidleisio wedi'i dilysu yn erbyn y cyfrifon a gedwir gan Swyddogion Llywyddu y gall Swyddogion Canlyniadau ddechrau cyfrif y pleidleisiau.

2.69 Ar gyfer etholaethau lle nad oedd y broses gyfrif wedi dechrau erbyn hyn, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Swyddog Canlyniadau gyflwyno datganiad i ni yn nodi'r camau a gymerwyd er mwyn sicrhau y gallai'r broses gyfrif ddechrau cyn 2am, ac egluro pam nad oedd yn bosibl i hynny ddigwydd.

2.70 Cyflwynodd y Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer tair etholaeth yng Nghernyw (Gogledd Cernyw, De-ddwyrain Cernyw, St Austell a

¹¹ Y Comisiwn Etholiadol *The Electoral Commission's response to the Government's White Paper and draft legislation on Individual Electoral Registration (Cm 8108)* (Hydref 2011)

¹² Comisiwn y Gyfraith, Comisiwn y Gyfraith yn yr Alban a Chomisiwn y Gyfraith yng Ngogledd Iwerddon *Electoral Law – A Joint Interim Report* (Chwefror 2016)

Newquay) ddatganiadau yn egluro nad oedd lleoliad y cyfrif a ddefnyddiwyd mewn etholiadau blaenorol ar gael, o ystyried bod yr etholiad wedi'i alw ar fyr rybudd, ac mai nifer lai o staff cyfrif y gallai'r lleoliad bach ei gynnwys. Cyflwynodd yr un Swyddogion Canlyniadau Gweithredol ddatganiad yn egluro bod lleoliad y cyfrif ar gyfer etholaeth Truro a Falmouth y tu allan i'r etholaeth, ac na allai'r broses gyfrif ddechrau nes byddai'r pecynnau pleidleisio drwy'r post wedi'u dosbarthu i'r ganolfan gyfrif o brif swyddfa'r Swyddog Canlyniadau Gweithredol.

2.71 Cyflwynodd y Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer dwy etholaeth yn Northumberland (Berwick upon Tweed a Hexham) ddatganiadau yn egluro bod maint a natur anghysbell ardal ddaearyddol y ddwy etholaeth yn golygu ei bod wedi cymryd amser i gludo'r deunyddiau'n ddiogel i'r leoliad cyfrif canolog ar gyfer y sir.

2.72 Roedd nifer o ganlyniadau agos yn etholiad cyffredinol mis Mehefin 2017, ac mewn sawl achos, cytunodd y Swyddogion Canlyniadau i geisiadau gan ymgeiswyr neu asiantiaid etholiad i ailgyfrif pleidleisiau. Enillodd un ar ddeg o'r ymgeiswyr a etholwyd yn llwyddiannus o gyn lleied â 100 o bleidleisiau yn yr etholiad hwn, o gymharu â thri ymgeisydd yn 2015 a chwech yn 2010.

2.73 Lle y cytunodd Swyddogion Canlyniadau i geisiadau gan ymgeiswyr neu asiantiaid, dylid ailgyfrif y pleidleisiau yn y ffordd fwyaf agored a thryloyw er mwyn sicrhau y gall pob arsyllwr fod yn hyderus yn y broses ei hun a'r canlyniad dros dro a geir. Gall Swyddogion Canlyniadau wrthod ailgyfrif pleidleisiau os byddant yn ystyried bod y cais yn afresymol, ond yn hytrach gynnig cyfle i'r ymgeiswyr a'r asiantiaid archwilio'r bwndeli o bapurau pleidleisio fel ffordd o gael sicrwydd bod y canlyniad yn gywir.

2.74 Yn etholaeth Gogledd-ddwyrain Fife y cafwyd y canlyniad agosaf yn etholiad cyffredinol mis Mehefin 2015, a benderfynwyd gan ddwy bleidlais ar ôl tri achos o ailgyfrif yn ffurfiol. Yn etholaeth Kensington y cafwyd y cyfrif hiraf, a benderfynwyd gan 20 o bleidleisiau ar ôl tri achos o ailgyfrif yn ffurfiol a barhaodd drwy noson y diwrnod pleidleisio a'r diwrnod canlynol. Cafodd y canlyniad ei ddatgan am 9pm ddydd Gwener 9 Mehefin.